



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu arfaethedig

Lluniwyd yr adroddiad arfaethedig hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a
bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor)

Rhif achos: CS098



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Gymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- i. Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:
 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- ii. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- iii. Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- iv. Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Cydymffurfiaeth â safon 91, 92, a 93: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad arfaethedig	7
	Hysbysiad penderfynu arfaethedig	18

1 Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 26/11/2021, derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.
- 1.2 Mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymgynghoriad diweddar gan y Cyngor ynghylch cynnig i symud adran fabanod at safle Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, ac ehangu maint yr adeilad newydd. Mae'r achwynydd yn honni na wnaeth yr ymgynghoriad ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg.

Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.3 Ysgrifennodd fy swyddogion at y Cyngor ar 06/12/2021 er mwyn cadarnhau ai'r Cyngor oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano.
- 1.4 Atebodd y Cyngor ar 13/12/2021 yn cadarnhau cyfrifoldeb am y mater. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr ymgynghoriad yn ymwneud ag ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, a bod y cynnig yn cynnwys symud yr adran fabanod at yr adran cyfnod allweddol dau. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais bod y broses o drefnu ysgolion yn cael ei reoli'n llym gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i nodi bod bwriad i ehangu maint yr ysgol Gymraeg lleol, sef Ysgol y Ferch o'r Sgêr.
- 1.5 Mae'r Cyngor yn nodi bod asesiad effaith iaith Gymraeg ac asesiad effaith cydraddoldeb wedi cael eu cwblhau yn ystod y broses ymgynghori. Canlyniadau'r asesiadau oedd bod yr ymgynghoriad yn ymwneud ag ysgol cyfrwng Saesneg ac felly yn annhebygol o effeithio ar gyfleoedd disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg; ac nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau perthnasol

- 1.6 Mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod – 30/03/2016

Penderfyniad i ymchwilio

- 1.7 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau a nodwyd. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor ar 14/01/2022.
- 1.8 Rhoddais hysbysiad o gylch gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i'r Cyngor ar 01/03/2022. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

2.1 Ar 01/03/2022, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i'r Cyngor. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

Gwybodaeth a dogfennau

1. Esboniwch sut yr oedd y ddogfen ymgynghori sy'n ymwneud â'r penderfyniad polisi dan sylw wedi ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheiny'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—
 - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Esboniwch sut yr oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw wedi ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –
 - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
3. Esboniwch sut yr oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw wedi ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –
 - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
4. Darparwch dystiolaeth o unrhyw ganllawiau neu drefniadau mae'r Cyngor wedi eu datblygu ar gyfer cydymffurfio â'r safonau llunio polisi wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori. A ddilynwyd y trefniadau hyn yn yr achos yma? Os ddim, eglurwch pam.
5. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
6. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
- 7.

2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan y Cyngor ar 09/05/2022. Yn ogystal, darparwyd copïau o'r dogfennau canlynol:

- Adroddiad Ymgynghori'r polisi

2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

Y dystiolaeth a dderbyniwyd

Cwestiwn 1

- 2.4 Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, dechreuai'r Cyngor drwy nodi bod y penderfyniad polisi dan sylw yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion, ac felly yn cael ei reoli'n llym gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod) a Deddf Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dywedai bod y Cod yn gosod allan yn glir pob cam o'r broses ymgynghori ac yn pennu ymgynghorai statudol. Yn unol â gofynion y Cod, dywedai'r Cyngor iddo gwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ynghyd ag Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (AEIG).
- 2.5 Dywedai'r Cyngor bod y Cod yn datgan bod rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac uwchradd yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys mewn niferoedd, cymeriad ac offer i ddarparu addysg addas i'r holl ddisgyblion. Mae'r Cod hefyd yn datgan bod angen cwblhau AEIG pan mae'r cynigion yn effeithio ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 2.6 Ym mhob achos arall, dywedai'r Cyngor bod angen ystyried y canlynol:
- Effaith y cynnig ar gyrraedd targedau yn y Strategaeth Cymraeg mewn Addysg;
 - Sut mae'r cynnig am ehangu neu leihau darpariaeth addysg Gymraeg, ac os yw'n lleihau, egluro pam.
- 2.7 Eglurai'r Cyngor bod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn ysgol cyfrwng Saesneg.
- 2.8 Ai'r Cyngor ymlaen i egluro'r cam sy'n cynnig ehangu maint yr adeilad newydd, a bod hynny mewn ymateb i broblemau gorlenwi sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgol. Mae'r dosbarthiadau yn yr adran iau yn rhy fach ac felly yn orlawn. O ganlyniad, dywedai'r Cyngor nad cynnig i ehangu'r niferoedd o ddosbarthiadau sydd yn yr ysgol sydd yma, ond yn hytrach cynnig i fynd i'r afael â maint yr ystafelloedd ble cynhelir y dosbarthiadau hynny fel eu bod yn addas ar gyfer 30 o ddisgyblion. Felly, dywedai'r Cyngor nad yw'n rhagweld effeithiau negyddol ar addysg Gymraeg yn yr ardal petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- 2.9 Dywedai'r Cyngor nad yw'r Cod yn gosod allan ffurf asesiadau effaith, yn hytrach, mae'n datgan yn unig y dylai asesiadau effaith gael eu cynnwys mewn dogfennau ymgynghori. Dywedai'r Cyngor ei fod wedi cwblhau asesiadau effaith cychwynnol, wnaeth ystyried effeithiau'r cynnig ar yr iaith Gymraeg, ac fe gafodd y rhain eu cyhoeddi (gweler atodiad B a C y ddogfen ymgynghori)
- 2.10 Pwrpas y ddogfen ymgynghori yn ôl y Cyngor yw cyflwyno cynnig cychwynnol a chysylltu gyda rhanddeiliaid er mwyn casglu barn a thystiolaeth. Yn ôl y Cyngor, mae tudalen 3 y ddogfen ymgynghori yn datgan yn glir beth yw pwrpas yr ymgynghoriad a sut i ymateb iddo. Mae'r Cyngor yn cynnwys y testun canlynol fel prawf ei fod yn gofyn am sylwadau ar y cynnig (mae'r Cyngor yn atodi'r fersiwn Saesneg felly dyma'r fersiwn Gymraeg cyfatebol):

“Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd sylwadau ar y cynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, drwy ehangu. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben a'r adran fabanod yn symud i adeilad newydd Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar safle'r adran iau bresennol yn Stryd Pwllgath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET, mewn grym o fis Medi 2025 ymlaen.

Sut i ymateb

*Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar **23 Tachwedd 2021** ac yn cau ar **12 Ionawr 2022**. Gallwch ymateb ar y ffurflen gynwysedig (gweler tudalen 25 y ddogfen hon) neu ar-lein a gofyn cwestiynau pellach yn y ffyrdd canlynol:*

Ffôn: (01656) 643 643

E-bost: edsu@bridgend.gov.uk

Ar-lein: www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/“

- 2.11 Mae'r Cyngor yn mynd ymlaen i ddangos yr adran oedd yn gofyn am farn ar y polisi (Fel uchod, mae'r Cyngor yn dangos y fersiwn Saesneg felly dyma'r fersiwn Gymraeg cyfatebol):

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion a gyflwynwyd, rhowch fanylion yma:

- 2.12 Yn unol â'r Cod a'r Ddeddf, dywedai'r Cyngor iddo gyflwyno adroddiad ymgynghoriad i'r Cabinet, wnaeth hysbysu'r Cabinet o ganlyniadau'r ymgynghoriad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymateb Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG), ar dudalen 44 yr adroddiad. Roedd hefyd yn ôl y Cyngor yn cynnwys fersiwn diweddaraf AEIG oedd wedi ei adolygu yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a chan fod AEIG yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn gyson drwy'r broses ymgynghori.

Cwestiwn 2

- 2.13 Mae'r ail gwestiwn yn gofyn yn benodol i'r Cyngor sut mae'r ddogfen ymgynghori yn cydymffurfio drwy ystyried a cheisio barn ar sut all y polisi gael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mewn ymateb, dywedai'r Cyngor ei fod wedi cynnwys yr holl fanylion mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf.

Cwestiwn 3

- 2.14 Mae'r drydydd cwestiwn yn gofyn i'r Cyngor sut mae'r ddogfen ymgynghori yn ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg. Fel yr uchod, mae'r Cyngor yn datgan bod yr ateb i'r trydydd cwestiwn wedi ei gynnwys yn yr ateb i'r cwestiwn cyntaf.

Cwestiwn 4

- 2.15 Gofynnais i'r Cyngor ddarparu unrhyw arweiniad mewnol oedd ganddo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi. Mewn ymateb, dywedai'r Cyngor ei fod wedi corffori'r AEIG fel rhan o'r broses asesiad cydraddoldeb. Mae'n cynnwys sgrin-lun o'r trefniadau a ddilynwyd yn yr achos yma (mae tystiolaeth y Cyngor yn Saesneg felly dyma fy nghyfieithiad isod):

“Beth mae'r Cyngor wedi ei wneud hyd yn hyn a'r camau sydd wedi eu cymryd

- a) *Mae'r Cyngor eisoes yn ymgymryd ag Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar bolisiau newydd a rhai diwygiedig er mwyn adnabod effeithiau andwyol, niwtral a phositif posib ar bobl. Mae'r broses AEC wedi ei ddiwygio ac erbyn hyn yn cynnwys adrannau penodol ac arweiniad ar ofynion safonau'r Gymraeg i reolwyr ddefnyddio pan mae polisiau yn cael eu diwygio neu eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys:*

- Ystyried pa effeithiau fydd polisi yn ei gael ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac a yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;*
- A yw'r polisi yn mynd i arwain at gynnydd yn yr effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac*
- A oes posib cyflwyno'r polisi fel nad yw'n cael effaith andwyol (neu effeithiau llai andwyol) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.*

- b) *Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi datblygu proses newydd sy'n sicrhau bod AEC yn gorfod mynd ar y cyd gyda phob adroddiad cabinet.”*

Cwestiwn 5

- 2.16 Gofynnais oedd gan y Cyngor unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach imi ei ystyried, ac fe wnaeth nodi eto bod AEIG wedi ei ddiweddarau yn dilyn ymgynghori, a bod y Cabinet wedi cael eu hysbysu o'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

Cwestiwn 6

- 2.17 Ar gyfer y cwestiwn olaf, mae'r Cyngor yn ailadrodd bod y Cabinet wedi derbyn fersiwn diweddaraf yr AEIG. Mae hefyd yn ychwanegu bod y Cabinet wedi cymeradwyo cynnig i gynyddu maint yr ysgol Gymraeg lleol, sef Ysgol y Ferch o'r Sgêr, ac mae disgwyl i'r adeilad newydd agor ym mis Medi 2024.

3 Cydymffurfiaeth â safon 91, 92, a 93: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad arfaethedig

Geiriad y safon

- 3.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod – 30/03/2016

Dehongliadau

- 3.2 Mae Rhan 2, adran 3 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg 2015 yn nodi:

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un ai ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Gofynion y safon

- 3.3 Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori corff sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn ynghylch unrhyw effeithiau posib all y penderfyniad ei gael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio.

- 3.4 Rhaid i gorff gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt.
- 3.5 Disgwylir i gorff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses ymgynghori, fel y byddai'r corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 3.6 Mae'r achos yma yn ymwneud â chynnig i gynyddu maint Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, yn ogystal â symud yr adran fabanod at yr adran cyfnod allweddol dau. Bydd hwn yn adeilad newydd.
- 3.7 Mae'r achwynydd yn honni na wnaeth yr ymgynghoriad ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac yn benodol ar addysg Gymraeg o fewn y sir. Y safonau perthnasol felly yw safonau 91, 92, a 93, sy'n ymwneud â dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi.
- 3.8 Yn yr hysbysiad tystiolaeth, gofynnais gwestiynau penodol fesul safon er mwyn i'r Cyngor ddangos sut oedd yn cydymffurfio â phob un ohonynt. Mae ymateb y Cyngor yn siomedig, ac mae'n cyflwyno un ateb ar gyfer tri chwestiwn cyntaf yr hysbysiad tystiolaeth. Rhoddais gyfle yma i'r Cyngor ddangos imi sut mae'n credu iddo gydymffurfio gyda safonau 91-93 yn y ddogfen ymgynghori, ac mae wedi methu gwneud hynny yn llawn. Mae'r ymateb yma yn bennaf yn ymwneud â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod), Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (AEIG), a'r adroddiad ymgynghori. Nid yw hyn yn berthnasol i'r ymchwiliad yma, sy'n ymwneud â'r ddogfen ymgynghori yn unig. Nid yw'r Cyngor yn cyfeirio yn ei dystiolaeth at unrhyw effaith gafodd ei ystyried yn y ddogfen ymgynghori mewn perthynas â'r Gymraeg.
- 3.9 Rhaid pwysleisio mai'r unig fater sydd dan ystyriaeth yn yr ymchwiliad yma yw cydymffurfiaeth y ddogfen ymgynghori ei hun gyda safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau yn benodol iawn mai'r ddogfen ymgynghori ei hun ddylai gydymffurfio, ac felly nid yw unrhyw ddogfen arall a grëwyd gan y Cyngor yn ystod y broses o ddogfen benderfyniad yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn.
- 3.10 Mae'r Cyngor yn cyfeirio yn aml yn ei ymateb at y Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Rwy'n awyddus i bwysleisio bod y Cod a'r safonau yn gyfundrefnau cyfreithiol ar wahân, ac nid yw cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Cod yn berthnasol i'r ymchwiliad yma, nac unrhyw ymchwiliad arall gennyf i. Mae casgliad y Llys Apêl yn *Driver v Rhondda Cynon Taf* yn cadarnhau hyn.¹ Mae'r safonau dan sylw yn benodol am y ddogfen ymgynghori, ac felly dim ond y ddogfen honno sydd dan ystyriaeth.
- 3.11 Er mwyn i'r ddogfen ymgynghori gydymffurfio, mae'n rhaid bodloni dau ofyniad penodol. Yn gyntaf, rhaid 'ystyried' yr effeithiau posib; ac yn ail, rhaid 'ceisio barn' ynghylch unrhyw effeithiau posib.

¹ [Driver -v- Rhondda Cynon Taf County Borough Council \(welshlanguagecommissioner.wales\)](http://www.welshlanguagecommissioner.wales) paragraff 66

“Ceisio barn”

- 3.12 Mae paragraff 5.1.14. o'r Cod Ymarfer yn datgan – “Rhaid i gorff gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt”.
- 3.13 Mae'r Cyngor yn cyfeirio yn ei dystiolaeth at y canlynol fel dystiolaeth ei fod wedi bodloni'r elfen o geisio barn ar y cynnig:

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion a gyflwynwyd, rhowch fanylion yma:

- 3.14 Ond mae'r cymal uchod yn gyffredinol am y cynnig ei hun, ac nid yw'n gofyn am awgrymiadau mewn perthynas â'r Gymraeg, a sut i lunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif neu lai andwyol ar y Gymraeg.
- 3.15 Wrth edrych ar y ddogfen ymgynghori, dyma'r unig frawddeg sy'n cyfleu bod y Cyngor yn ceisio barn ar yr effaith ar y Gymraeg:

“Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg a byddem yn croesawu eich sylwadau/safbwyntiau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ynghylch a ydych o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol/andwyol.”

- 3.16 Rwy'n cydnabod yma bod y Cyngor yn gofyn am sylwadau ynghylch effeithiau cadarnhaol/andwyol y cynnig ar y Gymraeg. Serch hyn, nid wyf o'r farn bod y cymalau yma yn ddigon penodol i gydymffurfio gyda'r tair safon. Rhaid i'r Cyngor ofyn cwestiynau penodol am effaith y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; ac am effaith y cynnig ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol. Nid yw'n gwneud hynny yma. Mae'r Cyngor wedi methu ceisio barn y cyhoedd ym mhob un o'r tair safon dan sylw felly.
- 3.17 Er mwyn cydymffurfio gyda'r tair safon yma, byddwn wedi disgwyl gweld y Cyngor yn gofyn cwestiynau penodol am effeithiau posib y cynnig ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac yn gofyn i'r cyhoedd roi eu barn ar sut i addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid hefyd gofyn cwestiynau penodol i'r cyhoedd ynglŷn â sut i lunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

“Ystyried”

- 3.18 Rwy'n dehongli'r gofyniad yma i feddwl bod rhaid i'r ddogfen ymgynghori nodi, amlinellu ac ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg ar gyfer y cynnig dan sylw, ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael fyddai'n ei alluogi i wneud y penderfyniad mewn ffordd fyddai'n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor felly gynnwys gwybodaeth o fewn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut bydd

y penderfyniad yn effeithio ar y cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 3.19 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau yma, rwyf o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i'r tri ffactor allweddol canlynol:
- Effaith y cynnig ar addysg Gymraeg y disgyblion yn yr adeilad newydd;
 - Effaith y cynnig ar niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg yn yr ardal leol;
 - Effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned.
- 3.20 Rwyf o'r farn mai ystyried y tri ffactor uchod yw'r lleiafswm all corff ei wneud i gydymffurfio gyda'r safonau hyn mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion. Os nad yw corff wedi ystyried y tri ffactor uchod yng nghyd-destun y tair safon mewn dogfen ymgynghori, yna nid oes modd dadlau ei fod wedi ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg yn ddigonol yn y ddogfen ymgynghori.

Safon 91

- 3.21 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib all y cynnig ei gael ar y Gymraeg. Fel nodir uchod, y tri ffactor all y Cyngor fod wedi ei ystyried yw effaith positif/andwyol y cynnig ar addysg Gymraeg y disgyblion yn yr adeilad newydd; ar y niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg yn lleol; ac ar y Gymraeg yn y gymuned.
- 3.22 Fel dywedir uchod ym mharagraff 3.8, nid yw'r Cyngor yn cyfeirio at unrhyw effaith gafodd ei ystyried yn y ddogfen ymgynghori wrth ymateb i'r cwestiynau. Wrth edrych ar y ddogfen ymgynghori ei hun, mae'r Cyngor yn cynnwys adran dan y teitl 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg'. Yma mae'r Cyngor yn ystyried na fydd y ddarpariaeth Gymraeg yn yr adeilad newydd yn cael ei heffeithio yn sylweddol gan fod y cynnig yn ymwneud â newid rheoledig drwy ehangu'r ysgol. Ychwanegir y bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei dysgu drwy'r cwricwlwm, a bydd y Cyngor yn parhau i gydymffurfio gyda'r safonau drwy sicrhau bod yr holl arwyddion ar y safle yn ddwyieithog.
- 3.23 Mae adran dan y teitl 'Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt', sy'n rhestru'r ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol ac anuniongyrchol gan y cynnig. Mewn perthynas â'r ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn anuniongyrchol, dywedai'r Cyngor nad yw hyn o reidrwydd yn debygol, ond y gallai'r cynnig effeithio yn anuniongyrchol ar rai ysgolion mewn rhyw ffordd gyfyngedig, e.e. o ganlyniad i rieni yn mynegi dewis mewn perthynas â'r ysgol a ffafrir ar gyfer eu plant. O dan y rhestr anuniongyrchol yma, mae'r Cyngor wedi cynnwys Ysgol y Ferch o'r Sgêr, ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.
- 3.24 Yn atodiad C y ddogfen ymgynghori, dan y teitl 'Ffurflen Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)', mae adran yma ar yr Iaith Gymraeg, ac mae'n gofyn a fydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ateb y Cyngor ar gyfer y ddau yw na fydd effaith (gweler y tabl isod).

	Rhowch X yn y blwch perthnasol			Esboniad o'r effaith
	Effaith (effeithiau) cadarnhaol	Effaith (effeithiau) negyddol	Dim effaith	
A fydd y polisi neu'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg			X	
A fydd y polisi neu'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg			X	

- 3.25 Rwy'n cydnabod yma bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth gyfyngedig o effaith y cynnig ar yr addysg Gymraeg yn yr adeilad newydd, ond does dim ystyriaeth gydwobodol yma, dim ond datganiad na ddisgwylir effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a ddarperir yn yr ysgol.
- 3.26 Rhoddir cydnabyddiaeth i effaith negyddol posib y cynnig ar yr ysgolion Cymraeg yn lleol. Trafodaeth fras iawn sydd yma, ac fe fyddwn wedi disgwyl gweld trafodaeth ehangach o'r effaith ar yr ysgol gynradd Gymraeg lleol, Ysgol y Ferch o'r Sgêr. Er mwyn cwblhau asesiad cydwobodol, gall y Cyngor fod wedi rhoi ystyriaeth i effaith y cynnig ar ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol, ac ystyried a fydd yr adeilad newydd yn denu disgyblion o ysgolion Cymraeg cyfagos gan fod y cyfleusterau a'r adeilad yn newydd. Dydi'r Cyngor heb ystyried chwaith effaith negyddol y cynnig ar y Gymraeg o safbwynt y cynnydd yn niferoedd y disgyblion fydd yn cael mynychu'r adeilad newydd. Gall hyn hefyd olygu bod llai o ddisgyblion yn mynd i fynychu'r ysgolion Cymraeg lleol gan fod mwy o le bellach o fewn addysg cyfrwng Saesneg yr ardal.
- 3.27 Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, mae'r Cyngor yn esbonio bod y cynnydd ym maint yr ysgol yn digwydd oherwydd bod gormod o ddisgyblion yn y dosbarthiadau presennol gan fod y dosbarthiadau yn rhy fach. Yn ôl y Cyngor, nid yw'r cynnig yn cynyddu nifer y dosbarthiadau sy'n cael eu dysgu yn yr ysgol, ond yn hytrach mynd i'r afael â maint yr ystafelloedd ble cynhelir y dosbarthiadau hynny sydd eisoes yn bodoli fel eu bod yn addas i ddysgu 30 o ddisgyblion. Eglurai'r Cyngor yn ei dystiolaeth felly nad yw'n disgwyl gweld y cynnig yn cael effeithiau negyddol ar addysg Gymraeg yn yr ardal. Rwyf o'r farn nad yw hyn yn cael ei wneud yn glir yn y ddogfen ymgynghori, ac y gallai hyn fod wedi cael ei ystyried yn y ddogfen fel bod y cyhoedd yn deall yn well effaith y cynnig ar addysg Gymraeg yn lleol.
- 3.28 Ar gyfer cydymffurfio yn llawn gyda'r safon yma, mae disgwyl gweld ystyriaeth gydwobodol o effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r effaith ar y Gymraeg yn y gymuned hefyd. Un ffactor allai fod wedi cael ei gynnwys yw ystyriaeth o effaith yr adeilad newydd ar gyfer ysgol cyfrwng Saesneg ar y Gymraeg yn y gymuned, a'r ffaith bod yr ysgol yn ehangu yn rhoi'r argraff bod y Gymraeg yn dirywio yn yr ardal. Yn gysylltiedig gyda'r ail faen prawf i'w ystyried, gall yr adeilad newydd ddenu disgyblion o'r ysgol gynradd Gymraeg lleol gael effaith andwyol tymor hir ar y niferoedd o ddisgyblion sy'n mynd ymlaen i addysg Uwchradd Cymraeg, fyddai'n arwain at lai o siaradwyr Cymraeg ifanc yn y gymuned leol.

- 3.29 Mewn ymateb i'r tabl uchod sy'n nodi na fydd y cynnig yn cael effaith ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, rwy'n cwestiynu sut all y Cyngor ddod i'r casgliad hwn. Mae hyn oherwydd nad yw'n rhoi ystyriaeth gydwybodol i effaith bosib y cynnig ar yr ysgolion Cymraeg yn yr ardal yn y ddogfen ymgynghori, na chwaith effaith y cynnig ar y Gymraeg yn gyffredinol yn y gymuned. Rwyf hefyd yn ystyried bod risg yma bod y Cyngor yn methu rhoi digon o wybodaeth i'r cyhoedd ynghylch yr effaith bosib ar y Gymraeg drwy wneud datganiad caeedig sy'n nodi nad oes effaith negyddol debygol.
- 3.30 Felly o'r tair ystyriaeth ddisgwyliedig er mwyn cydymffurfio, mae'r Cyngor wedi cyfeirio yn fras at yr effaith ar yr addysg Gymraeg yn yr adeilad newydd, a chyfeiriad at effaith negyddol bosib y cynnig ar yr addysg Gymraeg yn lleol. Does dim ystyriaeth o effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned.

Canfyddiadau

- 3.31 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 91, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch effeithiau posib y cynnig (boed yn bositif neu'n andwyol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.32 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon yn y ddogfen ymgynghori i gesio barn na chyfleu ystyriaeth gydwybodol o effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. Does dim ystyriaeth o effaith posib y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned, a dim ond cyfeiriad bras at effaith y cynnig ar y Gymraeg yn yr adeilad newydd ac ar addysg Gymraeg yn lleol.
- 3.33 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 91.

Dyfarniad arfaethedig a fu methiant i gydymffurfio â safon 91

- 3.34 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 91 gan nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried na cheisio barn yn ddigonol ar yr effeithiau all y penderfyniad polisi dan sylw ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Safon 92

- 3.35 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.36 Fel rwyf eisoes wedi nodi yn yr adroddiad, tri ffactor allweddol sy'n rhaid eu hystyried er mwyn bodloni gofynion y safonau yma yw effaith y cynnig ar addysg Gymraeg y disgyblion yn yr adeilad newydd; ar y niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg yn lleol; ac ar y Gymraeg yn y gymuned.
- 3.37 Rwyf eisoes wedi nodi fy siom na wnaeth y Cyngor ymgeisio i ateb y cwestiwn yma yn unigol a dangos sut mae'n cydymffurfio gyda safon 92 yn y ddogfen ymgynghori.
- 3.38 Does dim ystyriaeth yn cael ei roi yn y ddogfen ymgynghori ynglŷn â sut i lunio neu addasu'r cynnig fel y byddai'n cael effaith mwy positif ar y Gymraeg yn yr adeilad newydd. Mae cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at y ffaith y bydd y Gymraeg yn

parhau i gael ei dysgu drwy'r cwricwlwm yn yr adeilad newydd. Gallai'r Cyngor fod wedi ystyried y posibilrwydd o addasu hynny, a thrafodaeth o'r opsiynau posib er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr adeilad newydd. Byddai hyn yn golygu y byddai'r polisi yn cael effaith mwy positif ar y Gymraeg o fewn yr adeilad newydd.

- 3.39 Mewn perthynas ag addysg Gymraeg yn lleol, does dim digon o gyd-destun yn cael ei roi gan y Cyngor. Mae tabl dan y teitl Tir ac Adeiladau yn dangos ansawdd y llefydd dysgu yn y sir. Mae ysgol Gymraeg y Ferch o'r Sgêr ar y rhestr, gyda sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd). Does dim trafodaeth bellach o hyn yn y ddogfen ymgynghori. Rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi colli cyfle yma i roi mwy o gyd-destun i sefyllfa addysg Gymraeg yn y sir, fel nad yw'n ymddangos i'r darlennydd bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei roi i un ysgol cyfrwng Saesneg, ond ddim i ysgol cyfrwng Cymraeg sydd hefyd mewn cyflwr gwael.
- 3.40 Does dim ystyriaeth chwaith yn y ddogfen ymgynghori ynglŷn â sut all y Cyngor addasu'r polisi fel y byddai'n cael effaith mwy positif ar y Gymraeg yn y gymuned.
- 3.41 Felly allan o'r tri ffactor allweddol i'w hystyried, dydi'r Cyngor heb lwyddo i ystyried unrhyw addasiad i'r polisi fel y byddai'n cael effaith mwy positif ar Gymraeg yn yr adeilad newydd; ar y niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg yn lleol; nac ar y Gymraeg yn y gymuned.

Canfyddiadau

- 3.42 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 92, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu fwy positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.43 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon yn y ddogfen ymgynghori i gesio barn na chyfleu ystyriaeth gydwobodol o sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg.
- 3.44 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 92.

Dyfarniad arfaethedig a fu methiant i gydymffurfio â safon 92

- 3.45 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 92 gan nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried yn ddigonol nac yn ceisio barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg.

Safon 93

- 3.46 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, rhaid i'r Cyngor geisio barn ac ystyried yn y ddogfen ymgynghori sut ellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.47 Ar gyfer y safon yma hefyd, disgwylir gweld ystyriaeth yn cael ei roi yn y ddogfen ymgynghori i sut all y polisi gael effaith llai andwyol ar addysg Cymraeg y disgyblion yn adeilad newydd; ar y niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg yn lleol; ac ar y Gymraeg yn y gymuned.

- 3.48 Unwaith eto, does dim ymateb uniongyrchol i'r cwestiwn am y safon yma yn nhystiolaeth y Cyngor. O ddarllen y ddogfen ymgynghori, does dim ystyriaeth o sut i addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg.
- 3.49 Gallai'r Cyngor fod wedi ystyried yma sut mae'n mynd i sicrhau nad yw'r adeilad newydd yn denu disgyblion o ysgolion Cymraeg cyfagos, fel mae'r Cyngor wedi ei adnabod fel risg yn y ddogfen ymgynghori. Does dim ystyriaeth chwaith o sut i addasu'r cynnig fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar addysg Gymraeg o fewn yr adeilad newydd, e.e. sut i addasu'r polisi fel na fydd y Gymraeg yn cael ei cholli mewn ysgol fwy ble mai Saesneg yw prif iaith yr addysg.
- 3.50 Rwy'n ymwybodol o gynlluniau'r Cyngor i ehangu maint Ysgol Gymraeg y Ferch o'r Sgêr, gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir. Rwyf o'r farn bod hyn yn rhywbeth allai'r Cyngor fod wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori er mwyn rhoi cyd-destun i'r cyhoedd ynglŷn ag addysg Gymraeg yn yr ardal, a hefyd i ddangos bod cynlluniau ar y gweill i wella sefyllfa addysg Gymraeg yn yr ardal hefyd.
- 3.51 Mae'n allweddol hefyd bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i sut y mae'n bwriadu lleihau effaith andwyol bosib yr ysgol Saesneg ar niferoedd siaradwyr Cymraeg y gymuned leol, ac ar yr agwedd tuag at y Gymraeg yn lleol. Mae adroddiad ymgynghori'r Cyngor yn trafod niferoedd siaradwyr Cymraeg yr ardal, ac yn nodi bod "bwllch yn sgiliau iaith Gymraeg trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan." Ai'r adroddiad ymlaen i ystyried sut bydd yr ysgol yn delio gyda hynny, e.e. drwy gynnig cyfle i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg ar y safle. Mae hyn yn ffactor allweddol allai fod wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori er mwyn dangos bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i effaith y cynnig ar y Gymraeg yn y gymuned.
- 3.52 Mae ystyriaethau fel lleoliad y datblygiad yn allweddol i ddyfodol cymunedau iaith Gymraeg. Rwyf o'r farn y dylai datblygiadau fod yn sensitif i anghenion cymunedau o'r fath a dylai bod dealltwriaeth o broffil ieithyddol presennol (a/neu a ragwelir) cymunedau ac ardaloedd. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cwmpasu'r ystyriaethau hyn, nac yn trafod sut mae am leihau unrhyw effaith negyddol y cynnig ar y Gymraeg o fewn ysgolion yn lleol, nac y gymuned ehangach.
- 3.53 Felly allan o'r tair ystyriaeth sy'n allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth, dydi'r Cyngor heb lwyddo i ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effaith llai andwyol ar y Gymraeg yn yr adeilad newydd; ar y niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg yn lleol; nac ar y Gymraeg yn y gymuned.

Canfyddiadau

- 3.54 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 93, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a cheisio barn yn y ddogfen ymgynghori ynghylch sut gellid llunio'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.55 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud digon yn y ddogfen ymgynghori i gesio barn na chyfleu ystyriaeth gydwybodol o sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg.
- 3.56 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 93.

Dyfarniad arfaethedig a fu methiant i gydymffurfio â safon 93

3.57 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 93 gan nad yw'r ddogfen ymgynghori wedi ystyried na cheisio barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar y Gymraeg.

Cyffredinol

- 3.58 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safonau hyn, mae angen ymdrech gydwybodol i ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg. Yn hytrach, trafodaeth arwynebol o'r Gymraeg sydd yn y ddogfen ymgynghori. Byddwn wedi disgwyl gweld trafodaeth wirioneddol o effaith y cynnig ar niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion Cymraeg cyfagos, a'r risg y gall adeiladu'r ysgol yn newydd yn yr ardal a chynyddu'r maint ddenu disgyblion o'r ysgolion Cymraeg, yn ogystal â sut mae'r Cyngor am leihau'r risg hwnnw.
- 3.59 Teimlaf fod y Cyngor wedi methu cynnwys digon o wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori er mwyn rhoi cyd-destun sefyllfa addysg Gymraeg yn yr ardal. Rwyf eisoes wedi cyfeirio yn yr adroddiad at gynlluniau'r Cyngor i fuddsoddi yn Ysgol Gymraeg y Ferch o'r Sgêr. Rwyf yn ystyried y gallai'r Cyngor fod wedi cyfeirio at hyn yn y ddogfen ymgynghori fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r bwriad i wella darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn lleol.
- 3.60 Gall penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â darpariaeth addysg gael effeithiau cymhleth ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned; ar benderfyniadau a wneir mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg; ac ar agwedd tuag at y Gymraeg yn lleol. Gall y rhain fod yn gymysgedd o effeithiau positif, andwyol a niwtral. Nid wyf yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud ymdrech ddigonol yn yr achos yma i adnabod y cymysgedd o effeithiau posib all y cynnig ei gael ar y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori.
- 3.61 Yn ei dystiolaeth, mae'r Cyngor yn cynnwys y canllaw mewnol y mae'n ei ddefnyddio wrth wneud Asesiadau Effaith. Mae'r canllaw yma yn ymddangos fel ei fod yn rhestru yn fras beth yw gofynion y tair safon mewn perthynas â'r elfen ystyried. Does dim cyfeiriad at yr elfen o geisio barn. Nid oes unrhyw esboniad pellach ynglŷn â sut i gydymffurfio gyda'r safonau, ac fe fyddai cryfhau'r canllaw mewnol yma yn gymorth i sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol.
- 3.62 Nodaf fod adroddiad ymgynghori'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg yn ehangach na'r ddogfen ymgynghori, ac mae ystyriaethau pellach o'r effeithiau posib. Ond nid yw hyn yn berthnasol i'r ymchwiliad yma. Mae'n bwysig mai'r Cyngor ei hun sy'n adnabod prif effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg, a'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori ynghyd ag opsiynau lliniarol fel bod y cyhoedd yn gallu gwneud sylwadau gwybodus arnynt. Nid cyfrifoldeb y cyhoedd ydyw i gyflwyno effeithiau posib y cynnig i'r Cyngor wrth ymateb i'r ymgynghoriad, achos fe ddylai'r Cyngor ei hun fod wedi eu hadnabod yn y ddogfen ymgynghori, fel y gall y Cyngor roi barn arnynt wedyn.
- 3.63 Os nad yw dogfen ymgynghori yn trin a thrafod effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg yn lleol, yna nid oes modd cynnal sgwrs a thrafodaeth wirioneddol agored gyda'r cyhoedd ynghylch y cynnig. Hynny yw, os nad yw'r Cyngor yn gofyn

cwestiynau penodol ynghylch y Gymraeg yn y ddogfen ymgynghori, ac os nad yw'r wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd yn y ddogfen, nid yw'r cyhoedd yn gallu gwneud sylwadau llawn ar y cynnig.

Gweithredu pellach

- 3.64 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 3.65 Yn achos fy nyfarniad arfaethedig fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 91, 92, a 93, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 3.66 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r canllaw mewnol, gan ychwanegu ato fel bod mwy o gynnwys yn hytrach na dim ond rhestr o'r safonau llunio polisi, fel bod gan staff fwy o gyfarwyddiadau wrth fynd ati i lunio dogfen ymgynghori. Rhaid i'r canllaw adlewyrchu bod dwy elfen angen eu bodloni ar gyfer y tair safon, sef ceisio barn, ac ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg.
2. Ar gyfer yr elfen ceisio barn, rhaid i'r Cyngor nodi bod angen gofyn cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n bodloni gofynion y tair safon. Rhaid nodi yma nad yw gofyn am ymateb yn gyffredinol i'r ymgynghoriad yn ddigon i gydymffurfio, ond rhaid gofyn yn benodol am effeithiau'r cynnig ar:
 - a) Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - b) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw bod angen i'r cwestiynau hyn gael eu gofyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori fel bod y cyhoedd yn gallu rhoi eu barn ar effaith y cynnig ar y Gymraeg.

3. Ar gyfer yr elfen ystyried, rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw bod angen rhoi ystyriaeth gydwobodol i effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg, ac i sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg. Rhaid i'r canllaw esbonio nad yw datganiadau arwynebol am y Gymraeg yn ddigon i gydymffurfio, a bod angen cynnwys digon o wybodaeth fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o sefyllfa'r Gymraeg mewn perthynas â'r cynnig.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol ar sut i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg wrth lunio dogfennau ymgynghori ar bolisiau sy'n ymwneud ag addysg yn y sir. Dylid codi ymwybyddiaeth staff at y canllaw diwygiedig yn yr hyfforddiant yma, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau 91-93.

5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg


6. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio gyda safonau 91, 92 a 93 drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff perthnasol o'r methiant drwy gyhoeddi'r adroddiad ar ei fewnwrwyd staff a'i drafod mewn pwyllgorau mewnol.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

7. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio drwy gyhoeddi gwybodaeth am yr ymchwiliad a'm dyfarniad ar fy ngwefan. Byddaf yn gwneud hynny er mwyn cyflawni fy amcan o addysgu sefydliadau am ofynion y safonau llunio polisi, ac i wella cyfraddau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu arfaethedig

At: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont at Ogwr

Rhif achos: CS098

Dyddiad: 08/08/2022

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 91.

Sail fy nyfarniad yw nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn yn ddigonol ar yr effeithiau all y penderfyniad polisi dan sylw eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 92.

Sail fy nyfarniad yw nad yw'r ddogfen ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn yn ddigonol ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif ar y Gymraeg.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 93.

Sail fy nyfarniad yw nad yw'r ddogfen ymgynghori wedi ystyried na cheisio barn yn ddigonol ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar y Gymraeg.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r canllaw mewnol, gan ychwanegu ato fel bod mwy o gynnwys yn hytrach na dim ond rhestr o'r safonau llunio polisi, fel bod gan staff fwy o gyfarwyddiadau wrth fynd ati i lunio dogfen ymgynghori. Rhaid i'r canllaw adlewyrchu bod dwy elfen angen eu bodloni ar gyfer y tair safon, sef ceisio barn, ac ystyried effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg.
2. Ar gyfer yr elfen ceisio barn, rhaid i'r Cyngor nodi bod angen gofyn cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n bodloni gofynion y tair safon. Rhaid nodi yma nad yw gofyn am ymateb yn gyffredinol i'r ymgynghoriad yn ddigon i gydymffurfio, ond rhaid gofyn yn benodol am effeithiau'r cynnig ar:
 - c) Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - d) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw bod angen i'r cwestiynau hyn gael eu gofyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori fel bod y cyhoedd yn gallu rhoi eu barn ar effaith y cynnig ar y Gymraeg.

3. Ar gyfer yr elfen ystyried, rhaid i'r Cyngor nodi yn y canllaw bod angen rhoi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg, ac i sut ellid llunio'r

polisi fel y byddai'n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg. Rhaid i'r canllaw esbonio nad yw datganiadau arwynebol am y Gymraeg yn ddigon i gydymffurfio, a bod angen cynnwys digon o wybodaeth fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o sefyllfa'r Gymraeg mewn perthynas â'r cynnig.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol ar sut i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg wrth lunio dogfennau ymgynghori ar bolisiau sy'n ymwneud ag addysg yn y sir. Dylid codi ymwybyddiaeth staff at y canllaw diwygiedig yn yr hyfforddiant yma, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion y safonau 91-93.
5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

6. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio gyda safonau 91, 92 a 93 drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth staff perthnasol o'r methiant drwy gyhoeddi'r adroddiad ar ei fewnwyd staff a'i drafod mewn pwyllgorau mewnol.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 91, 92, a 93: Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

7. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio drwy gyhoeddi gwybodaeth am yr ymchwiliad a'm dyfarniad ar fy ngwefan. Byddaf yn gwneud hynny er mwyn cyflawni fy amcan o addysgu sefydliadau am ofynion y safonau llunio polisi, ac i wella cyfraddau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant, gall y Cyngor apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynodd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio.